# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 25 Medi 2023

Amser: 13.15 - 15.33

Gellir gwylio’r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13479

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o’r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>James Evans AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Neil Hemington, Llywodraeth Cymru<br>Owen Struthers, Llywodraeth Cymru<br>Nicholas Webb, Llywodraeth Cymru<br>Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Bil Seilwaith (Cymru): sesiwn dystiolaeth

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 3.1 SL(6)379 – Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) (Diwygio) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)380 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(6)381 – Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Adferol) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 4.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a'r Gweinidog Newid Hinsawdd: Grwp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog.

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Lleiaf) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol.

### 5.2 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog at y Llywydd: Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Prif Weinidog at y Llywydd.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Bil Seilwaith (Cymru): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog gyda chwestiynau pellach.

## 8 Cytundebau rhyngwladol

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar y cytundebau rhyngwladol a ganlyn:

- Protocol Derbyn Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon i Gytundeb Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP);
- Confensiwn y DU-Norwy-Liechtenstein-Gwlad yr Iâ ar Gydgysylltu Nawdd Cymdeithasol;
- Protocol yn diwygio'r Confensiwn Rhyngwladol ar Gadwraeth Tiwna'r Iwerydd (“Protocol Palma”);
- Cytundeb Gwasanaethau Awyr y DU-Canada;
- Trafnidiaeth Ffyrdd Rhyngwladol y DU-Azerbaijan;
- Cytundeb Gwasanaethau Awyr y DU-Saint Vincent a’r Grenadines.

Cytunodd y Pwyllgor i dynnu sylw pwyllgorau perthnasol Senedd Cymru a Senedd y DU at yr adroddiad.